**Gwobr Dilyniant: Telerau ac Amodau 2026/27**

• **Mae'r wobr hon yn agored i fyfyrwyr llawn amser presennol sydd wedi'u cofrestru ar gyrsiau Blwyddyn Sylfaen a Blwyddyn Gyntaf sy'n byw mewn ardaloedd sydd â chyfraddau cyfranogiad isel mewn addysg uwch fel y'i diffinnir gan y Cynghorau Cyllido Addysg Uwch naill ai ar gyfer Cymru (CCAUC) neu Loegr (HEFCE).** Gallwch wirio eich cymhwysedd post drwy ddefnyddio **Gwiriwr Meini Prawf** Metropolitan Caerdydd sy'n gofyn i chi nodi'ch oedran a'ch cod post. **Bydd y cyfeiriad a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru gyda'r cwmni benthyciadau myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio yn eich asesiad cymhwysedd.**

• **Mae nifer cyfyngedig sy'n gallu derbyn y wobr hon.** Rhoddir blaenoriaeth dyrannu i'r rhai sydd â'r canran cyfartalog terfynol uchaf o farc modiwlaidd a enillwyd yn dilyn arholiadau diwedd blwyddyn Mai/Mehefin 2025 o'u blwyddyn gyntaf o astudio (data fel y'i cedwir gan y gofrestrfa academaidd). Os bydd gan ddau ymgeisydd sy'n cystadlu am y dyfarniad o fewn yr un ysgol academaidd farciau canrannol cyfartalog terfynol yr un fath, defnyddir ystod o feini prawf i gwblhau'r dyraniad gan gynnwys incwm yr aelwyd (isaf), dyddiad yr ymateb (cynharaf) i Brifysgol Metropolitan Caerdydd, dyddiad y cais (cynharaf) i Brifysgol Metropolitan Caerdydd a/neu farciau Lefel 3. **Dim ond y rhai sydd ag o leiaf 70% o farc cwrs cyfartalog fydd yn cael eu hystyried.**

• **Nid oes angen i chi wneud cais am y dyfarniad hwn, os ydych yn gymwys byddwch yn cael eich ystyried.**

• **Dim ond ar gyfer bwrsariaeth dilyniant a ddyrannwyd i'r ysgol academaidd yr ydych wedi'ch cofrestru ynddi y gallwch gael eich ystyried.**

• **Rhaid i chi fod wedi cofrestru ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd erbyn 31ain Gorffennaf 2026 i dderbyn y taliad dyfarniad**.

• **Caiff taliad y dyfarniad ei wneud o dan y rhagdybiaeth o ddilyniant llwyddiannus i'r flwyddyn nesaf o astudio.** Ni ddyrennir y dyfarniad i unrhyw un sydd wedi ail-eistedd yn y gorffennol nac yn ail-eistedd ar hyn o bryd, yn ailadrodd unrhyw ran o'u hasesiadau cwrs neu sydd wedi cael ei dynnu'n ôl neu ei atal o'u hastudiaethau.

• Os, ar ôl cofrestru ar flwyddyn ddilynol eich cwrs yn 2026, eich bod yn cael eich atal neu eich tynnu'n ôl ac mae'r dyfarniad eisoes wedi'i thalu i chi, **mae'n rhaid i chi ad-dalu'r dyfarniad cyfan i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar ôl i'r penderfyniad i ohirio gael ei gadarnhau neu os ydych chi'n cael eich tynnu'n ôl neu eich atal o'ch astudiaethau.**

• Nid yw'r wobr hon ar gael i'r rhai sy'n astudio mewn colegau masnachfraint. Cysylltwch â'ch coleg lleol i drafod argaeledd bwrsariaeth ac ysgoloriaethau.

• Bydd gohebiaeth wobrwyo yn cael ei anfon at **eu cyfeiriad e-bost myfyriwr.**

- Gofynnir i fyfyrwyr llwyddiannus lenwi ffurflen ar-lein (a anfonir at gyfeiriad e-bost eu myfyriwr) i ddarparu eu manylion talu. Gofynnir iddynt ddarllen a chadarnhau eu bod wedi deall y **ddogfen 'Sut rydym yn storio'ch data', sydd ar gael ar y wefan.**

- Ni fydd hawliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu derbyn a bydd hawl i'r dyfarniad yn cael ei golli i unrhyw un nad yw wedi cyflwyno hawliad cyn y dyddiad penodedig.